

Gwybodaeth Mynediad i Eiddo a Thir.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn hwyluso mynediad i wybodaeth Pridiannau Tir trwy unrhyw un o'r tri llwybr a restrir isod.

Mae'n bwysig nodi bod mynediad i'r wybodaeth trwy ba bynnag lwybr a ddewisir yn cael ei hwyluso **am ddim**. Bydd unrhyw godiadau a wneir o dan y llwybr EIR ar gyfer darparu copïau caled o'r wybodaeth pe bai angen, a bydd yn rhesymol ar sail adfer costau yn unig. Bydd unrhyw godiadau a wneir o dan Lwybr Uwch 1 neu 2 ar gyfer y gwasanaeth uwch a ddarperir uwchlaw'r mynediad am ddim i'r wybodaeth.

Mynediad o dan yr EIR.

I gael mynediad at wybodaeth gan ddefnyddio'r llwybr EIR, cyflwynwch eich cais ynglŷn â'r maes gwasanaeth perthnasol fel y manylwyd isod;

- Cynllunio – cysylltwch â regulatory.services@conwy.gov.uk Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn
- Rheoli Adeiladu – cysylltwch ag regulatory.services@conwy.gov.uk Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn
- Gorfodaeth Tai - cysylltwch â regulatory.services@conwy.gov.uk Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn
- Iechyd yr Amgylchedd – cysylltwch â regulatory.services@conwy.gov.uk Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn
- Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau – cysylltwch ag erf@conwy.gov.uk Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Mochdre, Bae Colwyn.

Fel arall gallwch gysylltu â info-gov.unit@conwy.gov.uk a bydd eich ymholiad yn cael ei phasio yn uniongyrchol i'r gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Yna bydd y gwasanaeth penodol yn cysylltu â chi a bydd trefniadau yn cael eu gwneud i chi weld yr wybodaeth trwy ryddhau'r wybodaeth i chi i'w archwilio am amser, dyddiad a lleoliad penodol.

Tra gwneir pob ymdrech i hwyluso eich mynediad ar unwaith, ni ellir bod yn benodol ynglŷn ag amseroedd a dyddiadau gweld/ arolygu a bydd hyn yn ddibynnol ar y swmp ymholiadau/gwaith ar yr adeg hynny.

-	Dyddiad	Enw	Gwasanaeth	Nodiadau
V1	Mehfin 2010	DOC – IRU	CICS	Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir
V2	Medi 2010	DOC – IRU	CICS	
V3	Hydref 2011	DOC-IGU	CICS	
V4	Mehfin 2016	DOC/CSL	REG	

Sylwer na fydd yr unigolyn sydd yn hwyluso eich mynediad yn gymwys yn y maes gwybodaeth y byddwch yn ei weld ac felly ni fyddant yn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau/ gwestiynau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw ymholiadau/cwestiynau o'r fath, bydd angen i chi ddefnyddio Llwybr Uwch 1 neu 2 lle bydd unigolyn cymwys yn gallu delio â nhw.

Pe bai angen copïau caled o'r wybodaeth bydd hyn cael ei wneud i chi ac efallai bydd codiadau rhesymol yn cael eu codi fel sonniwyd uchod.

Mynediad o dan Lwybr Uwch 1 neu 2.

I gael mynediad at wybodaeth gan ddefnyddio un ai Llwybr Uwch 1 neu 2 dylech ffacsio eich cais i'r Uned Pridiannau Tir, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, rhif ffacs (01492) 576102 yn nodi ai Llwybr 1 neu 2 yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio.

	Cais o dan ddarpariaethau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.	Cais o dan Lwybr Uwch 1	Cais o dan Lwybr Uwch 2		
Llwybr Mynediad;	<p>Cais yn cael ei gyflwyno yn uniongyrchol i'r gwasanaethau unigol sy'n gysylltiedig â dal yr wybodaeth ofynnol; Cynllunio. Rheoli Adeiladu. Gorfodaeth Tai. Iechyd yr Amgylchedd. Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.</p> <p>Manylion cyswllt fel cyfeiriwyd atynt uchod;</p> <p>Bydd y gwasanaethau wedyn yn cysylltu â chi wneud trefniadau i chi weld yr wybodaeth trwy ei rhyddhau i'w harchwilio.</p> <p>Gellir cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i'r Uned Rheoliadau</p>	<p>Dylid ffacsio ceisiadau i'r Uned Pridiannau Tir 01492 576102.</p> <p>Dylai'r ffacs gynnwys:</p> <p>Tudalen ffacs fel clawr gyda'ch cyfeiriad busnes a'ch rhif ffôn.</p> <p>Cyfeiriad yr eiddo i'w chwilio.</p> <p>Nodwch y math o chwiliad (ar y gofrestr neu fynediad llawn.)</p> <p>O.N. - Dylid ffacsio cynllun wedi ei farcio yn glir, yn dynodi'r ffiniau i symud ymlaen gyda'r chwiliad.</p>	<p>Electronig CON29: Bydd chwiliad electronig CON29 (atebir yr holl gwestiynau) trwy We-gyflwyniad Conwy. Gellir cyflwyno a dychwelyd y chwiliad hwn yn electronig.</p> <p>CON29 Papur: Gellir cyflwyno chwiliad papur CON29 (atebir yr holl gwestiynau) a'i dychwelyd yn y post/DX.</p> <p>Chwiliad llawn LLC1 a CON29: Mae'r chwiliad hwn ar gael ar ffurf electronig (atebir yr holl gwestiynau yn ogystal â llunio cofrestr LC).</p> <p>Chwiliad llawn LLC1 a CON29: Chwiliad CON29 papur (atebir yr holl gwestiynau, yn ogystal â llunio cofrestr LLC).</p>		
	- 2	<i>Dyddiad</i>	<i>Enw</i>	<i>Gwasanaeth</i>	<i>Nodiadau</i>
V1		<i>Mehfin 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	<i>Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir</i>
V2		<i>Medi 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	
V3		<i>Hydref 2011</i>	<i>DOC-IGU</i>	<i>CICS</i>	
V4		<i>Mehfin 2016</i>	<i>DOC/CSL</i>	<i>REG</i>	

	Cais o dan ddarpariaethau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.	Cais o dan Lwybr Uwch 1	Cais o dan Lwybr Uwch 2
	Gwybodaeth ganolog a fydd yn anfon eich ceisiadau i'r gwasanaethau unigol sy'n gysylltiedig â chadw'r wybodaeth ofynnol a fydd wedyn yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau angenrheidiol fel nodwyd uchod.		
Gwybodaeth a fydd yn cael ei rhyddhau;	<p>Dim ond yr Wybodaeth sy'n cael ei gadw ar ddyddiad y cais fydd yn cael ei ddangos.</p> <p>Ni fydd unrhyw wybodaeth newydd a dderbynnir wedi hynny a'i gadw ar ôl dyddiad y cais yn cael ei ryddhau.</p>	<p>Heb fod ar y Gofrestr</p> <p>Chwiliad Mynediad i Wybodaeth CON29 (heb gofrestr Cynllunio a Phriffyrdd):</p> <p>Ni fydd cwestiwn Q 1.1 (a) - (i) Cynllunio, Q 2.1a a 2.2 Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn cael eu hateb.</p> <p>Bydd yr ymatebion sydd yn weddill i CON29 yn cael eu darparu gan yr Uned Pridiannau Tir Lleol</p> <p>Cofrestr Llawn</p> <p>Chwiliad Mynediad Llawn i Wybodaeth CON29:</p> <p>Bydd yr holl ymatebion i'r CON29 yn cael eu darparu gan yr Uned Pridiannau Tir</p>	<p>Bydd yr holl adroddiadau chwilio yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynau ac atebion. • Gwybodaeth. • Rhifau cyswllt adrannau. • Gwybodaeth ddefnyddiol arall - yn cael ei argraffu ynglŷn ag adrannau perthnasol y cyngor h.y. llyfrgelloedd, canolfannau hamdden. • Cynllun yn dangos yr ardal chwilio.

	<i>Dyddiad</i>	<i>Enw</i>	<i>Gwasanaeth</i>	<i>Nodiadau</i>
V1	<i>Mehfin 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	<i>Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir</i>
V2	<i>Medi 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	
V3	<i>Hydref 2011</i>	<i>DOC-IGU</i>	<i>CICS</i>	
V4	<i>Mehfin 2016</i>	<i>DOC/CSL</i>	<i>REG</i>	

	Cais o dan ddarpariaethau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.	Cais o dan Lwybr Uwch 1	Cais o dan Lwybr Uwch 2
		<p>Lleol</p> <p>Bydd yr adroddiadau chwilio yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • atebion • cynllun yn dangos yr ardal chwilio 	
Math o fynediad;	<p>Archwiliad ar y safle.</p> <p>(Ni ellir pennu dyddiadau ac amseroedd archwilio/gweld ymlaen llaw a byddant yn ddibynnol ar swmp yr ymholiadau/gwaith ar yr adeg hynny.)</p> <p>Mynediad yn cael ei hwyluso trwy weld copïau electronig.</p> <p>Mynediad yn cael ei hwyluso trwy weld copïau caled.</p>	<p>Mae chwiliadau heb fod ar y gofrestr a'r gofrestr llawn ar gael mewn copi caled y gellir mynd â nhw adref gyda chi.</p> <p>Bydd yr Uned Pridiannau Tir Lleol yn darparu copi o'r wybodaeth CON29R y gellir ei gasglu o'r dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn.</p>	<p>Gellir cyflwyno a dychwelyd CON29 electronig a LLC1 a CON 29 electronig yn electronig ar www.conwy.gov.uk/locallandcharges</p> <p>Bydd Con papur 29 ac LLC1 a CON29 papur yn cael eu cyflwyno trwy'r post neu eu rhoi yn y dderbynfa. Bydd copi caled o'r chwiliadau wedi eu cwblhau yn cael eu casglu neu eu postio.</p>
Costau;	<p>Mae CBSC wedi mabwysiadu'r Rheoliadau Ffioedd fel yr FOIA, mewn perthynas â cheisiadau o dan yr EIR. Gan gymryd na eir ymhellach na'r terfyn priodol o 18 awr/£450, bydd y ffioedd yn berthnasol i;</p>	<p>Heb fod ar y Gofrestr £42.00 (Ffi o £39 ar gyfer chwiliadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri)</p> <p>Cofrestr Llawn £49.00 (ffi o £62.75 ar gyfer chwiliadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri)</p>	<p>CON29 Electronig: £72.00</p> <p>CON29 Papur: £95.00</p> <p>Chwiliad Llawn LLC1 a CON29: £101.00 (papur)</p> <p>Chwiliad Llawn LLC1 a CON29: £76.00 (electronig)</p>

	<i>Dyddiad</i>	<i>Enw</i>	<i>Gwasanaeth</i>	<i>Nodiadau</i>
V1	<i>Mehefin 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	<i>Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir</i>
V2	<i>Medi 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	
V3	<i>Hydref 2011</i>	<i>DOC-IGU</i>	<i>CICS</i>	
V4	<i>Mehefin 2016</i>	<i>DOC/CSL</i>	<i>REG</i>	

	Cais o dan ddarpariaethau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.	Cais o dan Lwybr Uwch 1	Cais o dan Lwybr Uwch 2
	<p>Archwilio copi caled ar y safle – am ddim.</p> <p>Archwiliad copi electronig ar y safle – am ddim.</p> <p>Gallai ceisiadau am gopiâu caled o wybodaeth ar adeg yr archwilio olygu ffi resymol yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd. (h.y. costau treuliau sydd yn gysylltiedig ag argraffu, copïo a phostio etc).</p>	<p>Bydd Pridiannau Tir Lleol yn darparu anfoneb yn fisol a dadansoddiad o'r chwiliadau y gofynnir amdanynt ar gyfer y ddau fath o chwiliad. Gellir gwneud taliad trwy siec, BACS neu gerdyn credyd/debyd</p>	<p>Telir am chwiliadau papur gyda siec.</p> <p>Chwiliadau electronig – bydd y Pridiannau Tir Lleol yn darparu anfoneb fisol a dadansoddiad o'r chwiliadau y gofynnir amdanynt ar gyfer y ddau fath o chwiliad. Gellir gwneud taliad trwy siec, BACS neu gerdyn credyd/debyd</p>
Terfynau Amser;	<p>Ymateb ar unwaith ond o fewn 20 diwrnod gwaith fan bellaf.</p> <p>Er y gwneir pob ymdrech i hwyluso mynediad ar unwaith, sylwer na ellir sicrhau dyddiadau ac amseroedd archwilio/gweld sydd yn golygu gwybodaeth oddi wrth fwy nag un maes gwasanaeth i redeg ochr yn ochr.</p> <p>Ni ellir rhoi amser a dyddiad mynediad/ymateb penodol – bydd yr hyn sy'n golygu 'ymateb ar unwaith' yn cael ei bennu gan y nifer o geisiadau ac ymrwymadau/ blaenoriaethau gwaith eraill y gwasanaeth dan sylw.</p>	<p>Heb fod ar y gofrestr – sicrwydd o 3 diwrnod gwaith</p> <p>Y Gofrestr lawn - sicrwydd o 3 diwrnod gwaith</p> <p>Rhaid i geisiadau am CON29R gyrraedd yr Uned Pridiannau Tir Lleol erbyn 10.30am, bydd yr wybodaeth wedyn ar gael i'w gasglu o fewn 3 diwrnod gwaith o'r dyddiad hynny.</p> <p>(h.y. Ceisiadau a anfonir i mewn am 10.30am ar ddydd Llun yn cael eu prosesu ac yn barod i'w casglu erbyn dydd Mercher.)</p> <p>(h.y. Ceisiadau a anfonwyd i mewn am</p>	<p>Mae'r holl chwiliadau yn cael eu prosesu a'u cwblhau o fewn 3 – 4 diwrnod gwaith.</p> <p>Pe cyflwynir chwiliad yn electronig, bydd y cwsmer yn cael yr opsiwn wrth gofrestru i gael y chwiliad yn ôl yn electronig. Os felly, unwaith bydd y chwiliad wedi ei gwblhau bydd yn cael ei dychwelyd y diwrnod hwnnw.</p> <p>Os yw'r chwiliad wedi cael ei gyflwyno trwy'r post yna bydd yn cael ei gwblhau o fewn 3–4 diwrnod gwaith, a'i dychwelyd trwy'r post.</p>

	<i>Dyddiad</i>	<i>Enw</i>	<i>Gwasanaeth</i>	<i>Nodiadau</i>
V1	<i>Mehefin 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	<i>Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir</i>
V2	<i>Medi 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	
V3	<i>Hydref 2011</i>	<i>DOC-IGU</i>	<i>CICS</i>	
V4	<i>Mehefin 2016</i>	<i>DOC/CSL</i>	<i>REG</i>	

	Cais o dan ddarpariaethau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.	Cais o dan Lwybr Uwch 1	Cais o dan Lwybr Uwch 2
		12.00pm ar ddydd Llun yn cael eu prosesu ac yn barod i'w casglu erbyn dydd Iau.)	

	<i>Dyddiad</i>	<i>Enw</i>	<i>Gwasanaeth</i>	<i>Nodiadau</i>
V1	<i>Mehfin 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	<i>Mynediad ffeil/terfynol i wybodaeth eiddo a phridiannau tir</i>
V2	<i>Medi 2010</i>	<i>DOC – IRU</i>	<i>CICS</i>	
V3	<i>Hydref 2011</i>	<i>DOC-IGU</i>	<i>CICS</i>	
V4	<i>Mehfin 2016</i>	<i>DOC/CSL</i>	<i>REG</i>	